

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL DRAFFT

Cynnwys

- 1.0 Cyflwyniad
 - 1.1 Pam mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol?
 - 1.2 Beth yw llywodraethu corfforaethol?
 - 1.3 Pam fod angen Cod Llywodraethu Corfforaethol arnom
- 2.0 Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod
- 3.0 Monitro ac Adolygu
- 4.0 Y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol

Atodiad 1 Strwythur Pwyllgorau

Atodiad 2 Polisiâu Llywodraethu

1.0 Cyflwyniad

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi mai dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan, wrth fynd ar drywydd y dibenion hyn, bod gan yr Awdurdod ddyletswydd i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymrwymedig i egwyddorion llywodraethu corfforaethol da wrth gyflawni ei ddibenion statudol. Trwy, ddatblygu a mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol a mynd ati'n barhaus i weithredu a monitro'r Cod hwnnw, mae'r Awdurdod yn cadarnhau ei ymrwymiad a'i fwriadu parhaus yn ffurfiol. Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE *Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2007) a'r adendwm iddo a gyhoeddwyd yn 2012.*

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o ymrwymiad yr Awdurdod i lywodraethu corfforaethol a'i ddealltwriaeth amdano, ac yn nodi'r trefniadau y mae wedi'u rhoi ar waith i sicrhau yr eir ati'n barhaus i weithredu a monitro'r Cod yn effeithiol.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys datganiad o sicrwydd wedi'i lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr bod yr egwyddorion yn cael eu sefydlu yn nhrefniadau llywodraethu'r Awdurdod a'u cefnogi gan yr holl Aelodau a Swyddogion.

Mae'r Coed Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r nodau a geir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*. Yn unol â hynny bydd ein

prosesau penderfynu'n sicrhau yr egwyddorion canlynol yn parhau i fod yn ganolog i gynllunio a chyflawni ein gwaith, er mwyn cyfrannu at y Nodau Llesiant.

Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

- Y tymor hir
- Integreiddio
- Cydlafurio
- Cynnwys
- Atal

Nodau Llesiant

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru Iachach
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

1.1 Pam mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol?

Mae mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ffordd y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cydnabod y ffaith bod llywodraeth leol effeithiol yn dibynnu ar sefydlu a chynnal hyder pobl leol mewn Aelodau ac yn swyddogion yr Awdurdod. Mae llywodraethu corfforaethol da'n tanategu hygrededd a hyder yn yr arweinwyr ac yn creu'r sylfaen ar gyfer darparu holl wasanaethau'r Awdurdod.

Mae mabwysiadu, monitro a chydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol yn helpu i wella cyfreithlondeb yr Awdurdod ac yn cynyddu'r ymddiriedaeth a roddir yn yr Awdurdod gan bobl leol, ymwelwyr a rhanddeiliaid.

Mae llywodraethu cryf, tryloyw ac ymatebol yn galluogi'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i roi dinasyddion yn gyntaf trwy fynd ar drywydd ei nodau a blaenoriaethau'n effeithiol, a thrwy eu tanategu â mecanweithiau priodol ar gyfer rheoli perfformiad a risg. Er mwyn cynnal hyder dinasyddion, mae'n rhaid bod y mecanweithiau hyn yn gadarn ac yn cael eu gweld i fod yn gadarn.

Ar y cyfan, mae mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol hwn ac ymrwymo iddo'n sefydlu sail ar gyfer ymrwymiad ar draws yr Awdurdod cyfan i'r ffordd y mae'n bwriadu cyflawni ei rôl o ran arwain a chynrychioli'r gymuned, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer pawb a sicrhau bod ffocws cryf ar gwsmeriaid ym mhopeth y mae'r Awdurdod yn ei wneud.

1.2 Beth yw Llywodraethu Corfforaethol?

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn ymadrodd a ddefnyddir i ddisgrifio sut y mae sefydliadau'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r hyn y maent yn ei wneud ac mae Llywodraethu

Corfforaethol da yn golygu ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu eu gwasanaethau mewn ffordd sy'n dangos atebolrwydd, didwylledd a gonestrwydd, ac sy'n ystyried anghenion cymunedau lleol.

Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ystyried mai ystyr Llywodraethu Corfforaethol yw gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a hefyd y diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n sail i gyfarwyddo a rheoli'r Awdurdod a'r modd y mae'n ateb i'w rhanddeiliaid ac yn ymgysylltu â hwy.

1.3 Pam fod angen Cod Llywodraethu Corfforaethol arnom?

Yn genedlaethol mae gwendidau o ran llywodraethu wedi arwain at fethiant gwasanaethau ac, ar rai achlysuron, at drychinebau. Mae gan sefydliadau sy'n perfformio ar lefel uchel, ar y llaw arall, drefniadau llywodraethu effeithiol.

Mae ymddiriedaeth y cyhoedd yn cael ei chynyddu pan fo ansawdd y gwasanaethau y maent hwy a'u teuluoedd yn eu profi'n uchel, a phan fo sefydliadau'n cael eu gweld i fod yn agored ac yn onest o ran cyfathrebu ynghylch eu perfformiad, ac o ran dysgu o'u camgymeriadau.

Mae'r Cod Llywodraethu yn seiliedig ar y chwe Egwyddor ganlynol a ddiffiniwyd gan CIPFA a SOLACE ac yn cynnwys gwerthoedd ac egwyddorion llywodraethu Creu'r Cysylltiadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Caiff y rhain eu dangos mewn ffont italig.

1. Canolbwyntio ar ddiben yr Awdurdod ac ar ganlyniadau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol; (*Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf*); (*Sicrhau Gwerth am Arian*).
2. Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin gyda swyddogaethau a rolau a ddiffiniwyd yn glir; (*Gwybod Pwy sy'n Gwneud Beth a Pham*);
3. Hybu gwerthoedd ar gyfer yr Awdurdod a dangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau ymddygiad uchel; (*Byw Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus*);
4. Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n mynd trwy brosesau effeithiol ar gyfer craffu a rheoli risg; (*Meithrin Darpariaeth Arloesol*);
5. Datblygu gallu a galluedd Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol; (*Bod yn Sefydliad sy'n Dysgu*);
6. Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn; (*Ymgysylltu ag Eraill*);

Mae'r Cod hwn yn disgrifio sut y bydd yr Awdurdod yn gweithredu ac yn dangos ei ymrwymiad i Lywodraethu Corfforaethol da mewn perthynas â'r chwe Egwyddor yma, sut y bydd yn cyflawni hyn a phwy fydd yn monitro ac yn adolygu'r trefniadau llywodraethu.

2.0 Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod

Egwyddor I

Canolbwyntio ar ddiben yr Awdurdod, ar ganlyniadau i'r gymuned gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau a chreu a gweithredu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol.

Llywodraeth Cymru – Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf – Cyflawni Gwerth am Arian “Mae llywodraethu da'n golygu canolbwyntio ar anghenion a phrofiadau pobl, gwneud cyflenwi gwasanaeth o ansawdd uchel yn ddiben y sefydliad” – “Mae llywodraethu da'n golygu edrych ar ôl adnoddau trethdalwyr yn iawn, a'u defnyddio'n ofalus i ddarparu gwasanaethau effeithiol o ansawdd uchel.”

Gwelir pwrpas a gweledigaeth yr Awdurdod i ardal y Parc yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel boed yn uniongyrchol, mewn partneriaeth neu drwy gomisiynu. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau yn y ffordd orau a bod y trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaethau hynny'n cael gwerth ardderchog am arian. Er mwyn sicrhau hyn:-

Bydd yr Awdurdod yn ateb yr holl ofynion statudol o ran adrodd ar weithgareddau, perfformiad a sefyllfa ariannol yr Awdurdod mewn fformat amserol a dealladwy trwy gynhyrchu'r canlynol bob blwyddyn.

- Cynllun Corfforaethol;
- Cyfrifon wedi'u harchwilio'n allanol (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blyneddol);
- Gwybodaeth am berfformiad wedi'i gwirio'n annibynnol.
- Manylion prosiectau a gweithgareddau trwy'r wasg a chyfryngau eraill

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod adolygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol bob pum mlynedd.

Bydd yr Awdurdod yn amcanu at gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n rhoi gwerth am arian a bydd yn cyflawni hyn trwy:

- Gyflenwi gwasanaethau i gwrdd ag anghenion ei wahanol gymunedau, cwsmeriaid a rhanddeiliaid, a rhoi prosesau yn eu lle i sicrhau eu bod yn gweithredu'n gynaliadwy, yn effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd yn ymarferol;

- Cynnal arolygon cwsmeriaid ac ymchwil arall i'r farchnad,
- Dyrannu adnoddau i gyflawni amcanion corfforaethol;
- Datblygu perthnasoedd a phartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sectorau preifat a gwirfoddol.
- Ymateb yn briodol i ganfyddiadau ac argymhellion Archwilwyr Allanol ac Arolygwyr Statudol a rhoi trefniadau ar waith i gymryd camau gweithredu y cytunwyd arnynt;
- Cymharu gwybodaeth am ein gwasanaethau â gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau tebyg ac asesu pam fod lefelau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd yn wahanol mewn sefydliadau eraill.

Egwyddor 2

Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin, gyda swyddogaethau a rolau a ddiffiniwyd yn glir.

Llywodraeth Cymru – Gwybod Pwy sy'n Gwneud Beth a Pham

“Mae llywodraethu da'n golygu bod pawb sy'n rhan o ddarparu gwasanaeth yn deall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd a sut y byddant yn cyflawni'r canlyniadau gorau bosib.”

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn galw am eglurder ynghylch rolau Aelodau'r Awdurdod a pharch a chydabyddiaeth i swyddogaeth graffu briodol. Yn ogystal â hyn, mae perthynas waith adeiladol rhwng aelodau a staff, a pharch ar y ddwy ochr tuag at bob un o'r priod rolau hyn yn hollbwysig. Yn olaf mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall ein rôl a'r lefelau gwasanaeth y gallant eu disgwyl.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y rolau a chyfrifoldebau angenrheidiol ar gyfer llywodraethu'r Awdurdod yn cael eu hadnabod a'u dyrannu fel ei bod yn glir pwy sy'n atebol am benderfyniadau a wneir.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Ethol Cadeirydd yr Awdurdod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Penodi Pwyllgorau yn flynyddol i gyflawni cyfrifoldebau'r Awdurdod yn unol â'i Amodau Gorchwyl a Chynllun Dirprwyo; (Mae manylion Pwyllgorau i'w gweld yn Atodiad I)
- Penodi Aelod Eiriolwr a all weithredu fel llyfarydd ar bynciau penodol
- Bod â chynllun ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau'r Awdurdod i'r Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion;
- Sicrhau bod penderfyniadau gan swyddogion dan bwerau a ddirprwywyd iddynt yn cael eu cofnodi'n briodol.
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu eglur wedi'u sefydlu ar gyfer partneriaethau'r Awdurdod, h.y. eglurder ynghylch statws cyfreithiol y bartneriaeth a rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid.
- Bod â threfniadau priodol ar gyfer craffu ar wasanaethau ac ar gyfer dwyn y penderfynwyr i gyfrif.

Egwyddor 3

Hyrwyddo egwyddorion ar gyfer yr Awdurdod a dangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau ymddygiad uchel.

Llywodraeth Cymru – Byw Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus
“Mae llywodraethu da yn golygu creu tîm sy’n gallu gwneud y gwaith yn dda, y mae eu hymddygiadau wedi’i wreiddio mewn gwerthoedd ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus”.

Dim ond os yw’r rhai sy’n dal swyddi cyhoeddus yn arddel y safonau ymddygiad uchaf ac yn annog eraill i wneud yr un modd y gellir cyflawni safonau ymddygiad uchel a llywodraethu effeithiol.

Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu diwylliant o ymddygiad yn seiliedig ar werthoedd cyffredin, egwyddorion moesegol ac ymddygiad da.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn trwy sefydlu’r canlynol a’u hadolygu’n gyson:

- Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau;
- Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion,
- Cofrestr o Fuddiannau, Lletygarwch a Rhoddion
- Rheolau Gweithdrefn Contractau a Safonau Ariannol
- Strategaeth Atal Twyll a Llygredigaeth a Pholisi Chwythu’r Chwiban.

Egwyddor 4

Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy’n mynd trwy brosesau effeithiol ar gyfer craffu a rheoli risg.

Llywodraeth Cymru – Meithrin Darpariaeth Arloesol
“Mae llywodraethu da’n golygu bod yn greadigol ac yn arloesol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus – gan weithio ar sail tystiolaeth, a chymryd risgiau a reolir i gyflawni canlyniadau gwell”.

Mae penderfyniadau gwybodus yn rhan sylfaenol o lywodraethu corfforaethol da. Mae’n galw ar Awdurdodau i fod yn drylwyr o ran y modd y maent yn archwilio opsiynau ond hefyd yn agored i ystyried sylwadau a barn gan bob sector yn y gymuned.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y broses benderfynu’n cynnwys asesiad manwl o’r risgiau gan gynnwys;

- Goblygiadau ariannol, cyfreithiol ac o ran adnoddau dynol (bydd awduron adroddiadau’n atebol os ydynt yn rhoi cyngor eu hunain);

- Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a chynaliadwyedd;
- Risgiau a chamau lliniaru.

Bydd yr Awdurdod yn agored ac yn onest o ran y modd y caiff penderfyniadau eu gwneud a'u cofnodi.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod adroddiadau ar benderfyniadau'n cynnwys cyngor gan yr holl swyddogion statudol ac yn egluro'r cefndir mewn ffordd agored a thryloyw.
- Cofnodi pob penderfyniad a wneir gan Bwyllgorau neu a ddirprwyir i swyddogion a threfnu bod y manylion ar gael yn gyhoeddus ac eithrio'r rhai sydd wedi'u hesemptio dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
- Bod a rheolau a gweithdrefnau sy'n dangos sut y caiff penderfyniadau eu gwneud;
- Datblygu a chynnal swyddogaeth graffu effeithiol sy'n rhoi anogaeth i herio mewn modd adeiladol;

Bydd gan yr Awdurdod Strategaeth Rheoli Risgiau a bydd yn gweithredu system rheoli risgiau sydd o gymorth i gyrraedd ei nodau a chyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol, yn gwarchod enw da'r Awdurdod ac asedau eraill ac yn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y system rheoli risgiau:

- Yn adnabod ac yn rheoli risgiau'n ffurfiol;
- Yn cynnwys aelodau yn y broses rheoli risgiau;
- Yn cysylltu risgiau â rheolaethau ariannol a rheolaethau mewnol allweddol eraill;
- Yn cynnwys proses i gynllunio ar gyfer parhad gwasanaeth a busnes;
- Yn adolygu ac, os oes angen, yn diweddarau ei brosesau rheoli risgiau o leiaf yn flynyddol.

Egwyddor 5

Datblygu gallu a galluedd Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.

Llywodraeth Cymru – Bod yn Sefydliad sy'n Dysgu

“Mae llywodraethu da yn golygu dysgu drwy'r amser a mynd ati drwy'r amser i wella'r modd y darperir gwasanaethau”.

Mae sicrhau bod aelodau a swyddogion yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i weithredu'r sefydliad yn agwedd bwysig ar lywodraethu.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn yr Awdurdod yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad y mae eu hangen arnynt i berfformio'n dda.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

Cod Llywodraethu Corfforaethol – Cymeradwywyd 2016

- Gweithredu Strategaeth Datblygu Aelodau;
- Datblygu sgiliau a chapasiti arwain ar draws yr Awdurdod;
- Datblygu a chynnal proses Arfarnu Perfformiad Personol ar gyfer swyddogion;
- Datblygu a chynnal y broses Cyfweiliad Datblygiad Personol ar gyfer aelodau
- Rhaeadru gwybodaeth i aelodau a swyddogion.

Egwyddor 6

Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.

Llywodraeth Cymru – Ymgysylltu ag Eraill

“Mae llywodraethu da yn golygu sicrhau bod barn a chyfraniadau staff, y cyhoedd ac asiantaethau partner yn cael eu ceisio a’u harneisio i gyflawni’r canlyniadau gorau posibl”.

Nid yn unig mae’n rhaid i awdurdodau lleol wneud pethau yn y ffordd gywir, ond mae’n rhaid iddynt hefyd wynebu her cael eu gweld yn gwneud pethau yn y ffordd gywir. Mae hyn yn galw am ymgysylltu’n llawn â phobl leol lle y bo’n briodol trwy broses sydd wedi’i chynllunio ac y darperir adnoddau ar ei chyfer mewn ffordd sy’n deg.

Bydd yr Awdurdod yn ceisio ac yn ymateb i farn rhanddeiliaid a’r Gymuned.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Ffurio a chynnal perthnasoedd ag arweinwyr sefydliadau eraill;
- Darparu a chefnogi ffyrdd i’r cyhoedd gyflwyno pryderon ynghylch y gymuned i’r Awdurdod,
- Ymgynghori mewn ffordd ystyrlon a thrwy fecanweithiau sy’n ceisio casglu barn yr holl bartïon sydd â buddiant.
- Gweithio gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i helpu cwsmeriaid a rhanddeiliaid i ddeall ein priod gyfrifoldebau a’r hyn yr ydym yn amcanu at ei gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth.
- Cynnal ac adolygu gweithdrefn gwynion effeithiol.

3.0 Monitro ac Adolygu

Mae Llywodraethu Corfforaethol Da yn galw am:

- Gyfranogiad gweithredol Aelodau a swyddogion ar draws yr Awdurdod,
- Datblygu, gweithredu a mynd ati’n barhaus i wella diwylliant Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod.

- Paratoi, mabwysiadu a chynnal Cod Llywodraethu Corfforaethol, gan gynnwys trefniadau i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu a'i gymhwyso'n barhaus.
- Cydlynu ac adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Hyrwyddo arfer gorau o ran Llywodraethu Corfforaethol ym mhob rhan o'r Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am fonitro ac adolygu trefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n gyson trwy'r canlynol:

- Gwaith y timau Archwilio Mewnol ac Allanol;
- Adroddiadau a gaiff eu paratoi gan reolwyr â chyfrifoldeb am agweddau ar y Cod hwn;
- Asiantaethau adolygu ac Arolygiaethau eraill.

4.0 Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Bob Blwyddyn bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a fydd yn darparu asesiad cyffredinol o drefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod ac arfarniad o'r rheolaethau allweddol sy'n bodoli i reoli'r risgiau allweddol i drefniadau llywodraethu'r Awdurdod.

Bydd y Datganiad hefyd yn darparu manylion yr agweddau y mae angen eu gwella.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ac yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod, cyn cael ei lofnodi gan Gadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyhoeddi fel rhan o Ddatganiad o Gyfrifon Blynyddol yr Awdurdod ac yn cael ei archwilio gan ein Harchwilwyr Allanol.

Llofnod



Melanie Doel
Cadeirydd



John Cook
Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Strwythur Pwyllgorau

Yr Awdurdod Parc Cenedlaethol

Pob un o'r 24 Aelod, yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn a hefyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Y Pwyllgor Archwilio a Chraffu

9 Aelod, yn cwrdd 4 gwaith y flwyddyn

Y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy

Pob un o'r 24 Aelod, yn cwrdd bob 6 wythnos

Y Pwyllgor Safonau

3 aelod o'r APC a 3 aelod a benodwyd yn allanol, yn cwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn

Y Pwyllgor Busnes Brys

Cadeirydd a Dirprwy'r Awdurdod, y Pwyllgor CMAHT a'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu, a thri aelod ychwanegol – yn cwrdd fel y bo angen

Gweithgorau, fforymau cynghori a grwpiau tasg a gorffen eraill

Mae'r Amodau Gorchwyl a'r Cynllun Dirprwyo yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd ac i'w gweld ar wefan yr Awdurdod: [Amodau Gorchwyl a Chynllun Dirprwyo](#)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Polisiau Llywodraethu

Teitl y Polisi	Adolygiadau
Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	Cynllun wedi'i gymeradwyo gan yr APC ar 5 Chwefror 2016
Cynllun Datblygu Lleol	Wedi'i fabwysiadu yn 2013
Cynllun Corfforaethol	Yn flynyddol
Datganiad o Gyfrifon	Yn flynyddol
Rheolau Sefydlog	Wedi'u hadolygu a'u diwygio ym mis Mai 2015
Amodau Gorchwyl a Chynllun Dirprwyo	Wedi'u hadolygu a'u diwygio ym mis Mai 2015
Cod Ymddygiad yr Aelodau	Wedi'i fabwysiadu yn 2008 a bydd yr Awdurdod yn ystyried mabwysiadu'r cod diwygiedig ar 10 Mehefin 2016
Protocol Aelodau a Swyddogion	Wedi'i adolygu a'i ddiwygio ym mis Mai 2015
Protocol Cynllunio	Wedi'i adolygu a'i ddiwygio ym mis Mai 2015
Cod Ymddygiad Cyflogeion	Wedi'i adolygu a'i fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2015
Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl	Wedi'i ddisodli gan y Ddeddf Cydraddoldeb
Rheoliadau Ariannol	Wedi'i adolygu a'i gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2014
Safonau'r Gymraeg	Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno
Cynllun Cyhoeddi	Wedi'i adolygu a'i gymeradwyo yn 2015
Polisi Rhyddid Gwybodaeth	2010 Dim newidiadau
Polisi Diogelu Data	I fod i gael ei adolygu yn 2016-17
Polisi Iechyd a Diogelwch	2010 Yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Thomas Carroll
Polisi Defnyddwyr TG	I fod i gael ei adolygu yn 2016-17
Polisi Rheoli Cofnodion	Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd
Strategaeth a Chynllun Parhad Busnes	Y Cynllun yn cael ei gynnal fel dogfen fyw, y strategaeth i gael ei hadolygu yn 2016-17
Polisi Caffael	I fod i gael ei adolygu yn unol â Pholisi Caffael Llywodraeth Cymru
Dyletswydd Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau	Wedi'i disodli gan y Ddeddf Cydraddoldeb